**Cwestiynau Ysgrifenedig i'w hateb ar 17 Mai 2001**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi'u derbyn ynghylch talu is-gontractwyr yng Nghymru ar gyfer gwaith a wnaed, a'r gwasanaethau a ddarparwyd, yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau.(WAQ11689)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa gamau y mae wedi'u cymryd o ganlyniad i sylwadau y mae wedi'u derbyn ynghylch peidio â thalu arian i is-gontractwyr yng Nghymru yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau. (WAQ11690)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Ers Chwefror 20 2001 faint o weithiau y mae wedi cyfarfod â swyddogion Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru. (WAQ11691)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Am ba elfennau o Flaenoriaeth Pump, yn rhaglen amcan un, y mae ei adran yn gyfrifol amdanynt. (WAQ11692)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A yw wedi darparu ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar y cynnig i beidio â symud anifeiliaid am 20 diwrnod ar ôl eu gwerthu. (WAQ11693)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau mae wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, Nick Brown, ynghylch cynnig y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd i beidio â symud anifeiliaid am 20 diwrnod ar ôl eu gwerthu. (WAQ11694)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Faint o staff yn yr Adran Amaethyddiaeth sy'n gweithio yn swyddfeydd rhanbarthol y Cynulliad. (WAQ11695)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa asesiad a wnaed o effeithlonrwydd Swyddfeydd Rhanbarthol yr Adran Amaethyddiaeth yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau. (WAQ11696)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi'u derbyn ynghylch effeithlonrwydd Swyddfa Ranbarthol yr Adran Amaethyddiaeth yng Nghaernarfon. (WAQ11697)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa bryd oedd y tro diwethaf iddo ymweld â Swyddfa Ranbarthol Caernarfon o'i Adran Amaeth. (WAQ11698)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi'u gwneud i'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar y mater o symud anifeiliaid yng Nghymru i Dir Comin caeëdig. (WAQ11699)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa bryd y bydd iawndal yn cael ei dalu i'r ffermwyr hynny a gollodd eu da byw fel rhan o'i bolisi difa. (WAQ11700)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa elfennau o Cyswllt Ffermio fydd yn weithredol cyn Hydref 2001. (WAQ11701)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa gymorth Ewropeaidd newydd y bydd yn ceisio ei hawlio i helpu adfer y diwydiant amaeth yng Nghymru wedi'r argyfwng traed a'r genau. (WAQ11702)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y cynnydd i gynnig arolwg busnes fferm i ffermwyr a welodd eu da byw yn cael eu difa yn ystod yr argyfwng traed a'r genau. (WAQ11703)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Ydy'r premiwm difa yn daladwy ar stoc a gafodd eu difa yng Nghymru yn ystod yr argyfwng traed a'r genau. (WAQ11704)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Faint o amser ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i bob Swyddfa Ranbarthol yn ei Adran Amaeth brosesu trwyddedau symud i ddifa. (WAQ11705)